**Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru**

Mae rhaglen ArtWorks Cymru 2023 – 2024 yn canolbwyntio ar greu astudiaethau achos o Egwyddorion Ansawdd ArtWorks Cymru, ar gynnal peilot o Lwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru, ac ar gynnig hyfforddiant i bartneriaeth ArtWorks Cymru.

Mae Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru yn cael ei ddatblygu i helpu artistiaid cyfranogol llawrydd yng Nghymru i ddatblygu eu hymarfer. Bydd yn canolbwyntio ar ddeialog rhwng artistiaid-hyfforddwyr ac artistiaid-hyfforddeion, gan alluogi'r hyfforddeion i edrych ar eu hymarfer, eu dyheadau, eu hanghenion a'u potensial.

Rydyn ni'n awyddus i gael ceisiadau gan unigolion sydd wedi'u tangynrychioli / sydd wedi cael eu diystyru neu'u cau allan o'r gymuned gelfyddydol; byddwn ni'n croesawu'n benodol geisiadau gan bobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac ethnig amrywiol.

Cymerodd chwech artist-hyfforddwr ran mewn encil hyfforddi yn 2019 lle datblygwyd y rhaglen hyfforddiant ar y cyd â Courtney Boddie o Theatr New Victory, Efrog Newydd. Bydd pob artist yn hyfforddi tri artist arall gan ddefnyddio'r rhaglen a ddatblygwyd, a hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol ledled Cymru.

## **Grŵp y Prosiect**

Dyma artistiaid a noddwyr grŵp 2023:

Bethan Page
Jon Dafydd-Kidd
Martin Daws
Pauline Down
Yn derbyn ymgeiswyr
Yn derbyn ymgeiswyr
Yn derbyn ymgeiswyr
Yn derbyn ymgeiswyr

## **Yr Encil**

Cynhaliwyd yr Encil Hyfforddi ym mis Tachwedd 2019, dan arweiniad Rhian Hutchings (ArtWorks Cymru) a Courtney Boddie (Theatr New Victory). Rhoddwyd sylw i'r canlynol:

- Diffinio gwerthoedd craidd Ymarfer Cyfranogol
- Edrych ar adnodd y llwybr hyfforddi artistiaid oedd wedi'i greu gan Courtney Boddie
- Ailddylunio'r adnodd ar gyfer Cymru

## **Yr Amserlen**

Mae'r Artistiaid-Hyfforddwyr bellach yn barod i ddechrau eu sesiynau hyfforddi. Rhaid i bob sefydliad benderfynu ar y cyd-destun a fydd yn sail i waith yr hyfforddwyr. Dylai'r sesiynau hyfforddi gael eu cynnal rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Chwefror 2024.

Bydd Tom Dyer yn cynnal y cyfarfodydd gwerthuso terfynol gyda'r artistiaid-hyfforddwyr a'r sefydliadau ym mis Mawrth

2024, ac hefyd yn cyfweld ag un hyfforddai o bob un o grwpiau'r artistiaid-hyfforddwyr.

## **Beth fydd y Sefydliadau'n ei wneud**

Bydd angen i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yn y Llwybr ymrwymo i'r canlynol:

- Cefnogi'r artist-hyfforddwr i gynnal y rhaglen drwy ddarparu llythyr cefnogi
- Cysylltu'r artist-hyfforddwr ag artistiaid eraill sy'n darparu prosiectau i'ch sefydliad
- Gweithio gyda'r artist-hyfforddwr i benderfynu sut bydd y rhaglen yn gweithio yn eich sefydliad chi, a'i helpu i recriwtio hyfforddeion
- Darparu gofod i gynnal sesiynau os bydd angen
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'w hymwneud â'r rhaglen
- Ymrwymo i gyfrannu at y broses o fyfyrio am y rhaglen a'i gwerthuso gyda Rheolwr Partneriaethau ArtWorks Cymru

## **Beth mae'r Artistiaid-Hyfforddwyr yn ei wneud**

Mae'r Artistiaid-Hyfforddwyr wedi ymroi i wneud y canlynol:

- Cynnal sesiynau hyfforddi gyda hyd at bump hyfforddai – gyda phob artist-hyfforddwr a sefydliad i gytuno ar yr union nifer a ffurf yr hyfforddiant
- Defnyddio a phrofi'r adnoddau a ddatblygwyd yn yr Encil
- Cefnogi pob hyfforddai, gan gadw'u trafodaethau'n gyfrinachol
- Ymrwymo i gyfrannu at y broses o fyfyrio am y rhaglen a'i gwerthuso gyda Rheolwr Partneriaethau ArtWorks Cymru

## **Beth mae ArtWorks Cymru yn ei wneud**

Bydd ArtWorks Cymru yn helpu drwy wneud y canlynol:

- Talu ffi i bob artist-hyfforddwr am hyfforddi
- Cefnogi'r artistiaid-hyfforddwyr yn ystod y rhaglen drwy grŵp WhatsApp a chyfarfodydd rheolaidd i'r grŵp ar skype
- Trefnu i'r hyfforddwyr allu rhannu'r holl adnoddau ar Google Drive
- Gwneud gwaith myfyrio a chynnal gwerthusiad terfynol o'r Llwybr Peilot gyda'r artistiaid-hyfforddwyr, y sefydliadau a'r hyfforddeion.

**<u>Cydnabod</u>**

Dylid defnyddio'r canlynol mewn perthynas â'r Llwybr ynghyd â'r logos a ddarparwyd:

Mae Llwybr Hyfforddi Artistiaid Cymru yn rhan o raglen ArtWorks Cymru 2023 – 2024 ac mae wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

**<u>Cysylltu</u>**

Mae'r Llwybr Artistiaid-Hyfforddwyr yn cael ei reoli gan Reolwr Partneriaethau ArtWorks Cymru
Tom Dyer
artworkscymru@artsactive.org.uk
07595 482624
www.artworks.cymru

Cysylltwch os bydd angen i bobl gael y wybodaeth mewn fformat gwahanol (h.y. print mawr, sain).

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government